

Enwau Lleoedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr




Hoffai Menter Bro Ogwr a Cwmni2 ddiolch i dîm 'Reach' (sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig yn ardaloedd gwledig bwrdeistref sirol Penybont-ar-Ogwr) am eu cymorth a chefnogaeth wrth ddatblygu'r prosiect enwau lleoedd hwn.

Menter Bro Ogwr and Cwmni2 would like to thank the Reach team (who are responsible for the implementation of the RDP in the rural areas of Bridgend county borough) for their assistance and support in developing this place names project.



Place Names in
Bridgend
County Borough





Mae'r map wedi'i rannu i bum ardal, sef cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr gyda'r enwau lleoedd yn rhedeg o'r gogledd i'r de mwy neu lai'n dilyn llif eu hafonydd, yna Gwlad a Thref ac yn olaf Yr Arfordir, gyda'rddwy ardal olaf hynny'n cael eu rhifo a'r rhestru o'r gorllewin i'r dwyrain.

Mae'r cofnodion wedi'u rhestru yma fel enwau Cymraeg ac yna'r enw neu fersiwn Saesneggyda phob un yn dangos yr elfennau sy'n ffurfio'r enw hwnnw, er mwyn eich helpu deall yr ystyr a'r tarddiad.

Mae pob tref a phentref yn y rhestr â'r cyfeirnodau grid hefyd, er mwyn i chi allu dod o hyd iddynt yn hawdd.

The map is divided into five areas, namely the Llynfi, Garw and Ogmore valleys, with place names running from north to south, more or less following the course of the rivers, then Town and Country and finally The Coast, with the latter two areas numbered and listed from west to east.

The entries are listed as the Welsh name and then the English name or version and with each one indicating the elements that make up that name, in order to help you understand the meaning and origin.

Every town and village in the list also contains the grid reference, so you can locate them easily.

Rhestr Gryno'r Enwau Lleodedd

Place Names Quick List



Cwm Llynfi | Llynfi Valley

	Cymraeg	English name or „version“	Cyfeirnod Grid Grid Reference
1	Caerau	-	SS854 942
2	Nantyrffyllon	-	SS850 925
3	Maesteg	-	SS852 913
4	Garth	-	SS863 908
5	Llwydarth	-	SS860 901
6	Cwmfelin	-	SS862 895
7	Llangynwyd	-	SS856 887
8	Pont-rhyd-y-cyff	-	SS870 889

Cwm Garw | Garw Valley

	Cymraeg	English name or „version“	Cyfeirnod Grid Grid Reference
9	Blaengarw	-	SS902 929
10	Pontycymer	-	SS903 914
11	Pant-y-gog	-	SS906 906
12	Pont-y-rhyl	-	SS906 894
13	Llangeinwyr	Llangeinor	SS914 876

Cwm Ogwr | Ogmores Valley

	Cymraeg	English name or „version“	Cyfeirnod Grid Grid Reference
14	Nant-y-moel	-	SS934 928
15	-	Price Town	SS937 920
16	-	Wyndham	SS932 915
17	Cwm Ogwr	Ogmores Vale	SS933 901
18	-	Lewistown	SS934 883
19	Pantyrwel	-	SS929 876
20	Melin Ifan Ddu	Blackmill	SS934 866
21	Glynogwr	-	SS956 872

Gwlad a Thref | Town and Country

	Cymraeg	English name or „version“	Cyfeirnod Grid Grid Reference
22	Gogledd Corneli	North Cornelly	SS817 817
23	Y Pîl	Pyle	SS826 824
24	Mynydd Cynffig	Kenfig Hill	SS837 829
25	Cefn Cribwr	-	SS854 827
26	Pen-y-bryn	-	SS837 846
27	Aber-baeden	Aber-baiden	SS858 844
28	Cwm Ffos	Cwm Ffoes	SS864 828
29	Ffordd-y-gyfraith	-	SS868 842
30	Trelales	Laleston	SS874 797



Pen-y-bont ar Ogwr

	Cymraeg	English name or „version“	Cyfeirnod Grid Grid Reference
31	Llangewydd	-	SS868 813
32	-	Broadlands	SS888 793
33	Betws	Bettws	SS899 867
34	Shwt	-	SS890 867
35	Goetre-hen	Coytrahen	SS890 855
36	Tondu	-	SS893 844
37	Abercynffig	Aberkenfig	SS892 836
38	Sam	-	SS902 835
39	Pen-y-fai	-	SS893 820
40	Brynmenyn	-	SS906 848
41	Abergarw	-	SS909 847
42	Bryncethin	-	SS914 841
43	Bryn-coch	-	SS911 838
44	Pen-y-cae	-	SS903 825
45	Y Felin-wyllt	Wildmill	SS903 820
46	Llidiard	Litchard	SS909 819
47	Penybont-ar-Ogwr	Bridgend	SS906 799
48	Tredŵr	Waterton	SS932 788
49	Pen-yr-heol	-	SS921 826
50	Coety	Coity	SS922 814

	Cymraeg	English name or „version“	Cyfeirnod Grid Grid Reference
51	Y Bragle	Brackla	SS922 799
52	Llangrallo	Coychurch	SS937 795
53	Heol-laethog	-	SS931 843
54	Heol-y-cyw	-	SS945842
55	Wern Tarw	-	SS960 845
56	Rhiwceiliog	-	SS964 841
57	Pencoed	-	SS959 816
58	Penprysg	Penprisk	SS962 821

Yr Arfordir | The Coast

	Cymraeg	English name or „version“	Cyfeirnod Grid Grid Reference
59	Mawdlam	Maudlam	SS807 819
60	Cynffig	Kenfig	SS802 810
61	Corneli Waelod	South Comelly	SS820 803
62	Notais	Nottage	SS812 781
63	Porthcawl	-	SS816 769
64	Y Drenewydd yn Notais	Newton	SS837 776
65	Llandudwg	Tythegston	SS856 788
66	Merthyr Mawr	-	SS885 776



1. Caerau -

Cyfeirnod Grid SS 854 942 Grid Reference

'caer' yn ei ffurf luosog

'caer' meaning 'fort', in its plural form

Ffeil Ffeithiau - Efallai wedi enwi ar ôl y twmpathau cyn-hanesyddol ar gopa'r mynydd sydd wedi rhoi'u henw i Nant Caerau sy'n llifo i'r Afon Llynfi.

Fact File - Possibly named after the prehistoric mounds on the tops of the hills that have given their name to the stream Nant Caerau that flows into the Llynfi River.

2. Nantyffyllon -

Cyfeirnod Grid - SS 850 925- Grid Reference

yn wreiddiol 'nant' + 'y' + 'ffyrlling'

'nant' meaning 'stream', 'y' meaning 'the' and 'ffyrlling' meaning 'farthing'

Ffeil Ffeithiau - Lleoliad Ysgol Gymraeg Tyderwen, a sefydlwyd ym 1948 ond sydd wedi ei dymchwel bellach, dyma'r drydedd ysgol cyfrwng Cymraeg erioed yng Nghymru (ar ôl Aberystwyth a Llanelli) a'r un cyntaf yn Ne Cymru.

Fact File - The location of the now-demolished Ysgol Gymraeg Tyderwen, which was established in 1948, and was the third ever Welsh medium school in Wales (following those in Aberystwyth and Llanelli) and the first one in South Wales.

3. Maesteg -

Cyfeirnod Grid - SS 852 913 - Grid Reference

'maes' + 'teg'

'maes' meaning 'field' or 'meadow' and 'teg' meaning 'fair'

Ffeil Ffeithiau - Cafodd y dref ei henwi ar ôl y tair fferm yn y cwm, a oedd yno cyn datblygiad diwydiant yn y 1820au - Maes-teg Uchaf, Maes-tegGanol a Maes-teg Isaf.

Fact File - The town is named after the three farms in the valley until the development of industry in the 1820s - Maes-teg Uchaf, Maes-teg Ganol and Maes-teg Isaf.

4. Garth -

Cyfeirnod Grid - SS 863 908 - Grid Reference

'garth'

'garth' meaning 'enclosure' (for farm animals)

Ffeil Ffeithiau - Mae'r pentref a'r cyn pwll glo wedi cymryd eu henw o Fryn y Garth, gyda chofnodion o'r enw hwnnw yn bodoli ers o leiaf 1588.

Fact File - The village and former coal pit take their name from the hill Y Garth, with records of that name dating from at least 1588.

5. Llwydarth -

Cyfeirnod Grid - SS 860 901 - Grid Reference

"llwyd" + 'garth'

"llwyd", normally meaning 'grey' but here meaning 'brown' when used for describing landscape and 'garth' meaning 'enclosure' (for farm animals)

Ffeil Ffeithiau - Mae'r fferm yn dyddio o'r 16eg Ganrif a Llwydarth oedd cartref y teulu Powell dylanwadol ac yn ganolfan iwduron a beirdd ym Morgannwg yn yr 17eg ganrif.

Fact File - The farm dates from the 16th Century and Llwydarth was the home of the influential Powell family and was a centre for writers and poets in Glamorgan in the 17th century.

6. Cwmfelin -

Cyfeirnod Grid - SS 862 895 - Grid Reference

'cwm' + 'melin'

'cwm' meaning 'valley' and 'melin' meaning 'mill' - a water wheel mill in this case

Ffeil Ffeithiau - Enwyd ar ôl y felin ddŵr a oedd yn gweithredu ar Nant y Cerdin cyn iddi lifo i'r afon Llynfi. Mae'r bythynnod o hyd yn yr un fan, ychydig cyn Gorsaf Garth.

Fact File - Named from the watermill that operated on Nant y Cerdin just before it flows into the Llynfi. The cottages are still in the same spot, just before Garth Station.

7. Llangynwyd -

Cyfeirnod Grid - SS 856 887 - Grid Reference

'llan' + enw'r sant 'Cynwyd'

'llan' meaning 'church' or 'parish' and the saint's name 'Cynwyd'

Ffeil Ffeithiau - Cafodd Eglwys Cynwyd Sant ei sefydlu yn y 6ed ganrif, ac mae tafarn The Old House yn dyddio o 1147. Mae'r pentref hefyd yn enwog am y gofeb i Wil Hopcyn a'r Ferch o Gefn Ydfa, ynghyd â'r traddodiad o Galennig, sef dathliad o gân i'r Flwyddyn Newydd sy'n cynnwys YFari Lwyd, penglog ceffyl wedi'i orchuddio gan gyfnaf wen â blodau.

Fact File - St Cynwyd's church was founded in the 6th Century, the Old House pub dates from 1147 and village is also famous for its commemoration of Wil Hopcyn and the Maid of Cefn Ydfa, along with the tradition of Calennig, a New Year celebration of song featuring the Mari Lwyd, a horse's skull draped in a white sheet with flowers.

8. Pont-rhyd-y-cyff -

Cyfeirnod Grid - SS 870 889 - Grid Reference

'pont' + 'rhyd' + 'y' + 'cyff'

'pont' meaning 'bridge' and 'rhyd' meaning 'ford' and 'y' meaning 'the' and 'cyff', originally from 'boncyff' meaning 'tree trunk'

Ffeil Ffeithiau - Yn ôl un stori leol, roedd enw'r pentref (y cyfeirir ati heddiw fel Llangynwyd, gyda'r hen bentref ar ben y bryn fel 'Top Llan') yn rhy anodd i feistri'r gorsafoedd ynganu, felly fe wnaethant ddechrau alw'r lle yn 'Gorsaf Llangynwyd'. Mae llawer o bobl hŷn o hyd yn cyfeirio at yr ardal i lawr o Sgwâr Llan fel 'Ponty'.

Fact File - According to one tale, the name of the village (today referred to as Llangynwyd with the old hilltop village as 'Top Llan') was too difficult for stationmasters to pronounce, so they began to call the halt Llangynwyd Station. Many older people still refer to the area down from Llan Square as being 'Ponty'.

Pont-rhyd-y-cyff



Cwm Garw

Garw Valley



Pontycymer

9. Blaengarw -

Cyfeirnod Grid - SS 902 929 - Grid Reference

'blae'n' + 'garw'

'blae'n' here meaning 'head of a valley' and 'garw', meaning 'rough' or 'wild' referring to the Garw river

Ffeil Ffeithiau - Cafodd mam darllenwr newyddion y BBC Huw Edwards ei geni ym Blaengarw ac ys-grifennwyd un o emynau enwocaf Cymru 'Calon Lân' gan Daniel James (Gwvrosydd) pan oedd yn byw yn y pentref.

Fact File - The mother of BBC Newsreader Huw Edwards was born in Blaengarw and one of the most famous Welsh hymns 'Calon Lân' was written by Daniel James (Gwvrosydd) when he was living in the village.

10. Pontycymer -

Cyfeirnod Grid - SS 903 914 - Grid Reference

'pont' + 'y' + 'cymer'

'pont' meaning 'bridge' and 'y' meaning 'the' and 'cymer' meaning 'river confluence' i.e. where two rivers flow into each other

Ffeil Ffeithiau - Cafodd y ffilm comedi 'Very Annie Mary' o 2001, gyda'r actorion Rachel Griffiths, Jonathan Pryce ac Ioan Gruffudd ei ffilmio yn y pentref - a enwyd 'Ogw' yn y ffilm.

Fact File - The 2001 comedy 'Very Annie Mary', starring Rachel Griffiths, Jonathan Pryce and Ioan Gruffudd was filmed in the village - named 'Ogw' in the film.

Pontycymer

11. Pant-y-gog -

Cyfeirnod Grid - SS 906 906 - Grid Reference

'pant' + 'y' + 'gog'

Ffeil Ffeithiau - Enwyd ar ôl Fferm Pant-y-gog ac mae hefyd yn rhoi ei enw yn Saesneg i un o'r strydoedd yn y pentref, Cuckoo Street.

'pant' meaning 'a hollow' and 'y' meaning 'the' and 'gog' meaning 'cuckoo'

Fact File - Named after Pant-y-gog Farm and also gives its name in English, to one of the streets in the village, Cuckoo Street.

12. Pont-y-rhyl -

Cyfeirnod Grid - SS 906 894 - Grid Reference

yn wreiddiol 'pont' + 'yr' + gair o'r Hen Saesneg 'hyll'

Ffeil Ffeithiau - Enwyd ar ôl bryn y Rhyll a Choed-y-Rhyll gyda'r ddau ohonynt i'r gogledd o'r pentref ar y ffordd i Bant-y-gog. Mae'n rhannu ei enw/ystyr gyda thref Rhyll ar arfordir Gogledd Cymru.

Originally 'pont' meaning 'bridge' and 'yr' meaning 'the' and the Old English word 'hyll' meaning 'hillock'

Fact File - Named after the hill Rhyll and Coed-y-Rhyll (Rhyll Wood) both of which are to the north of the village on the way to Pant-y-gog. It shares its name/meaning with Rhyll on the North Wales coastline.

13. Llangeinwyr

Llangeinor

Cyfeirnod Grid - SS 914 876 - Grid Reference

'llan' + enw'r person 'Ceinwyr'

Ffeil Ffeithiau - Un o'r enwau lleoedd hynaf yn y fwrdeistref sirol, yn dyddio'n ôl i o leiaf 1139 OC.

'llan' meaning 'church' or 'parish' and originally the personal name 'Ceinwyr'

Fact File - One of the oldest place names in the county borough, dating back to at least 1139 AD.



Cwm Dimbath, Mēlin Ifan Ddu

14. Nant-y-moel

-

Cyfeirnod Grid - SS 934 928 - Grid Reference

'nant' + 'y' + 'moel'

'nant' meaning 'stream' and 'y' meaning 'the' and 'moel', here meaning 'bare'

Ffeil Ffeithiau - Yn wreiddiol Nant Moel o tua 1585, roedd y nant yn llifo trwy ddarn o dir moel - mae'r ardal bellach yn llawer mwy coediog a gyda llawer mwy o dai wrth gwrs.

Fact File - Originally Nant Moel from around 1585, the stream flowed through a bare stretch of land - the area is now forested and with far more houses of course.

15. -

Price Town

Cyfeirnod Grid - SS 937 920 - Grid Reference

y cyfenw 'Price' + 'tref'

the surname 'Price' and 'town'

Ffeil Ffeithiau - Yn dyddio o 1890 ac wedi'i enwi ar ôl Daniel Price (1837-1893), rheolwr traffig pyllau glo Ocean Merthyr.

Fact File - Dating from 1890 and named after Daniel Price (1837-1893), traffic manager of the Ocean Merthyr collieries.

16. -

Wyndham

Cyfeirnod Grid - SS 932 915 - Grid Reference

yr enw 'Wyndham'

the name 'Wyndham'

Ffeil Ffeithiau - Enwyd yn wreiddiol ar ôl The Wyndham Arms a'r unig stryd o dai a oedd yn agos iddo, daw'r enw personol o bosibl o aelodau gwahanol teulu'r larll Dunraven.

Fact File - Originally named after The Wyndham Arms and the only street of houses that was near it, the personal name possibly comes from various members of the Earl of Dunraven family.

17. Cwm Ogwr

Ogmore Vale

Cyfeirnod Grid - SS 933 901 - Grid Reference

'cwm' + enw'r afon 'Ogwr'

the river name 'Ogmore' and 'vale'

Ffeil Ffeithiau - Mae un o hen siopau'r pentref, Siop a Haearn-werthwyr Gwalia, a adeiladwyd ym 1880, wedi cael ei symud fesul bric a'i ailadeiladu yn Amgueddfa Hanes Cenedlaethol Sain Ffagan.

Fact File - One of the old shops in the village, the Gwalia Stores and Ironmongers, which was built in 1880, has been moved brick by brick and rebuilt in the National Museum of History at St Fagans.

18. -

Lewistown

Cyfeirnod Grid - SS 934 883 - Grid Reference

y cyfenw 'Lewis' + 'tref'

the surname 'Lewis' and 'town'

Ffeil Ffeithiau - Enwyd ar ôl Syr William Thomas Lewis (1837-1914), Barwn Merthyr o Senghenydd, pen-naeth Lewis Merthyr Consolidated Collieries Ltd. ond yn wreiddiol roedd yr ardal wedi'i henwi ar ôl y fferm leol, Pentrebeili.

Fact File - Named from Sir William Thomas Lewis (1837-1914), Baron Merthyr of Senghenydd, head of the Lewis Merthyr Consolidated Collieries Ltd. but originally the area was known after the local farm, Pentrebeili.

19. Pantyrrawl

-

Cyfeirnod Grid - SS 929 876 - Grid Reference

'pant' + 'yr' + 'awel'

'pant' meaning 'a hollow' and 'yr' meaning 'the' and 'awel' meaning 'a breeze'

Ffeil Ffeithiau - Enwyd ar ôl Fferm Pant-yn-awel, er bod mapiau yr Arolwg Ordans o Forgannwg ym 1877 yn dangos y fferm fel Fferm Pant-un-awel, wedi cywiro yn ddiweddarach o 1898 i Pant-yn-awel. Mae'n bosibl bod yr enw pentref, mewn gwirionedd yn disgrifio'r lleoliad fel bod yn y pant ger Fferm Awel.

Fact File - Named after Pant-yn-awel Farm, although Glamorganshire OS maps from 1877 show the farm as Pant-un-awel Farm, later corrected from 1898 - the hollow in the breeze. It is possible that the village name therefore actually is describing it as being in the hollow near Awel Farm.

20. Melin Ifan Ddu Blackmill

Cyfeirnod Grid - SS 934 866 - Grid Reference

'melin' + yr enw personol 'Ifan' + 'du'

'melin' meaning 'mill' - a water wheel mill in this case, and the personal name 'Ifan' and 'du' meaning 'black' but here referring to Ifan being dark-haired

Ffeil Ffeithiau - Enwyd ar ôl y felin ddŵr a oedd yn eiddo i, ac yn cael ei rhedeg gan Ifan Ddu ap Gruffydd Goch.

Fact File - Named after the water mill owned and operated by the impressively named Ifan Ddu ap Gryffydd Goch.

21. Glynogwr -

Cyfeirnod Grid - SS 956 872 - Grid Reference

'glyn' + enw'r afon 'Ogwr' - yr Ogwr Fach yn yr achos hwn sy'n llifo i'r Afon Ogwr ym Melin Ifan Ddu

'glyn' meaning 'a glen or small valley' and the river name 'Ogmore' - in this case the Ogwr Fach that flows into the main Ogmore River at Blackmill

Ffeil Ffeithiau - Hefyd yn cael ei galw'n Llandyfodwg ar ôl eglwys Tyfodwg Sant, roedd y pentref yn gartref i un o'r ysgolion cynradd lleiaf yn Ne Cymru hyd at ddiwedd y 1980au.

Fact File - Also known as Llandyfodwg after the church of St Tyfodwg, it was home to one of the smallest primary schools in South Wales until the late 1980s.



Gogledd Corneli

22. Gogledd Corneli North Cornelly

Cyfeirnod Grid - SS 817 817 - Grid Reference

'gogledd' + efallai o 'carn' + yr enw personol 'Eli'

Ffeil Ffeithiau - Mae Goleuadau'r Gogledd a'r Dehefyd yn cael eu galw'r Aurora Borealis a'r Aurora Australis - yn y 13eg ganrif cafodd Gogledd Corneli ei gofnodi fel Corneli Borealis a De Corneli fel Corneli Australis.

'gogledd' meaning 'north' and possibly from 'carn' meaning 'a cairn' and the personal name 'Eli'

Fact File - The Northern and Southern Lights are also known as the Aurora Borealis and the Aurora Australis - in the 13th Century North Cornelly was recorded as Corneli Borealis and South Cornelly as Corneli Australis.

23. Y Pîl Pyle

Cyfeirnod Grid - SS 826 824 - Grid Reference

yn wreiddiol yr hen air Cymraeg 'pil' a'r hen air Saesneg 'pill' sy'n meddwl 'pwll llanw' naill ai ar neu'n agos i'r arfordir

Ffeil Ffeithiau - Mae'n bosibl bod y pentref yn rhannu ei henw/ystyr gydag ardal Pillgwenlli yng Nghasnewydd gan fod y rhan honno o'r ddinas, ar lan afon Wysg, hefyd â llif y llanw sylweddol.

originally from the old Welsh word 'pil' or the old English 'pill' meaning a 'tidal pool' either on a river or near the coast

Fact File - It possibly shares its name/meaning with the Pill area of Newport as that part of the city, on the banks of the Usk river, also has a significant tidal flow.

24. Mynydd Cynffig Kenfig Hill

Cyfeirnod Grid - SS 837 829 - Grid Reference

'mynydd' + enw person ac afon 'Cynffig' neu 'Cenffig'

Ffeil Ffeithiau - Dechreuodd y chwaraewr rygbi Clifton Davies (1919 -1967) ei yrfa rygbi ym Mynydd Cynffig, ac aeth ymlaen i ennill 16 o gapiau dros Gymru a chwaraeodd yn nhaith y Llewod Prydeinig i Awstralia ym 1950.

'mynydd' here meaning 'large hill' and the personal and river name 'Cynffig' or 'Cenffig'

Fact File - Named from the watermill that operated on Nant y Cerdin just before it flows into the Llynfi. The cottages are still in the same spot, just before Garth Station.

25. Cefn Cribwr -

Cyfeirnod Grid - SS 837 827 - Grid Reference

o 'cefn' + 'cribwr' o 'crib' + 'gŵr' ymmeddwl rhywun sy'n cribo gwlan

Ffeil Ffeithiau - Mae'r Gweithfeydd Haearn ym Mharc Bedford yn un o'r enghreifftiau mwyaf cyflawn o adeiladau o'r fath ym Mhrydain Fawr, ac maent yn cael eu diogelufel Heneb Gofrestredig.

'cefn' here meaning 'ridge' and 'cribwr' from 'crib' and 'gŵr' - a person who combs wool after shearing

Fact File - The Ironworks in Bedford Park are one of the most complete examples of such buildings in the whole of Great Britain, and are actually protected as a Scheduled Ancient Monument.

Cefn Cribwr



26. Pen-y-bryn

-

Cyfeirnod Grid - SS 837 846 - Grid Reference

'pen' + 'y' + 'bryn'

Ffeil Ffeithiau - Un o'r pentrefannau lleiaf yn y fwrdeistref sirol, i'r gogledd o'r Pîl, wedi ei lleoli yn un o'r ardaloedd amaethyddol gwledig. Mae'r Capel y Methodistiaid Calfinaidd yn y pentref yn dyddio'n wreiddiol o 1846.

'pen' here meaning 'the top of' and 'y' meaning 'the' and 'bryn' meaning 'hill'

Fact File - One of the smallest hamlets in the county borough, north of Pyle, set in one of the rural farming areas. The Calvinistic Methodist Chapel in the village originally dates from 1846.

27. Aber-baeden

Aber-baiden

Cyfeirnod Grid - SS 858 844 - Grid Reference

'aber' + enw'r nant 'Baedan' sydd efallai'n deillio o'r gair 'baedd' sef mochyn gwyllt

Ffeil Ffeithiau - Bu Brwydr y Oesoedd Twyll ym Mynydd Baddon rhwng y Celtiaid a'r Eingl-Sacsoniaid goresgynnol rywbryd rhwng 490 a 517 OC. Mynydd Baedan yw un o 5 lle sydd wedi cael ei awgrymu fel lleoliad posibl ar gyfer y frwydr hon.

'aber' meaning 'mouth of the river' and the name of the stream 'Baedan' that possibly derives from the word 'baedd' meaning 'a boar'

Fact File - The Dark Age Battle of Mount Badon, known in Welsh as Mynydd Baddon, was fought between the Celts and the invading Anglo-Saxons sometime between 490 and 517 AD. Mynydd Baedan is one of 5 places that has been suggested as a possible location for this battle.

28. Cwm Ffos

Cwm Ffoes

Cyfeirnod Grid - SS 864 828 - Grid Reference

'cwm' + 'ffos'

Ffeil Ffeithiau - Yn cael ei defnyddio bellach i gyfeirio at yr ardal i lawr o groesffordd Cefn Cribwr tuag at Ffordd-y-gyfraith, daw'r enw gwreiddiol o'r cwm bach a'r fferm yn yr ardal, sydd yn awr wedi eu colli i rad-dau helaeth fel rhan o'r chwarel calchfaen gwag.

'cwm' meaning 'valley' and originally 'ffos' meaning 'a ditch, trench or moat'

Fact File - Now used to refer to the area from the crossroads in Cefn Cribwr down towards Ffordd-y-gyfraith, it was originally named after the small valley and farm in the area, now mostly lost as part of the abandoned limestone quarry.

29. Ffordd-y-gyfraith

-

Cyfeirnod Grid - SS 868 842 - Grid Reference

'ffordd' + 'y' + 'gyfraith'

Ffeil Ffeithiau - Yn yr Oesoedd Canol, roedd Eglwys Cynwyd Sant yn Llangynwyd yn enwog fel cysegrfan i'r Grog Sanctaidd, a oedd yn gerflun o'r Croeshoeliad a oedd mor fyw y credwyd i allu ddarparu gwyrthiau. Roedd pererinion yn dilyn llwybrau penodol wrth ymweld â chysegrfannau ac roedd un i Llangynwyd o'r de hefyd yn cael ei ddefnyddio gan swyddogion yn cyflawni eu dyletswyddau ffurfiol, felly daeth y llwybr hwn yn adnabyddus fel Ffordd y Gyfraith.

'ffordd' meaning 'road' or 'way' and 'y' meaning 'the' and 'gyfraith' meaning 'law'

Fact File - In the Middle Ages, Saint Cynwyd's Church in Llangynwyd was famous as a shrine of the Holy Rood, which was a carving of the Crucifixion that was so vivid it was believed to be able to perform miracles. Pilgrims followed particular routes when visiting shrines and one to Llangynwyd from the south was also used by officials carrying out their formal duties, so this route became known as the Road or Way of the Law.

30. Trelales

Laleston

Cyfeirnod Grid - SS 874 797 - Grid Reference

'tref' + yn wreiddiol yr enw teulu Normanaidd 'Lageles'

Ffeil Ffeithiau - Mae'r pentref yn cymryd ei enw o'r teulu Normanaidd Lageles a ymsefydlodd yn yr ardal. Mae Eglwys Dewi Sant yn meddu ar nodweddion sy'n dyddio'n ôl i'r 13eg a'r 14eg ganrif, mae'r 'Great House' yn dyddio o'n gynnar yn y 16eg ganrif ac mae Eglwys Bresbyteriaidd Cymru Horeb y dyddio o 1831. Mae'r rhain a llawer o adeiladau eraill yn y pentref yn Adeiladau Rhestredig.

'tref' here meaning 'farmstead' in Welsh, the suffix 'ton' here the same in English, and the Norman family name 'Lageles'

Fact File - The village takes its name from the Norman Lageles family who settled in the area. St David's church possesses features dating back to the 13th and 14th centuries, the Great House was built in the early 16th century and Horeb Welsh Presbyterian Church dates from 1831. These and many other buildings in the village are Listed Buildings.

Llangewydd

31. Llangewydd -

Cyfeirnod Grid - SS 868 813 - Grid Reference

'llan' + enw'r sant 'Cewydd'

Ffeil Ffeithiau - Tai a ffermydd ar wasgar yw'r ardal wledig hon, ond mae adfeilion Eglwys Cewydd Sant i'r gogledd o Drelales, er mae ond meini hir hynafol yno yn awr. Mae Cewydd Sant yn cyfateb yng Nghymru i Sant Swithin, saint i bwy y dylech weddio ar adegau o sychder. Felly, Cewydd Sant yw nawddsant glaw Cymru.

'llan' meaning 'church' or 'parish' and the saint's name 'Cewydd'

Fact File - Scattered houses and farms are all that are in this rural area, but though the ruins of the Church of St Cewydd lie to the north of Laleston, all that marks the site now are ancient standing stones. St Cewydd is the Welsh equivalent of St Swithin, saints to whom you should pray in times of drought. In other words, St Cewydd is the Welsh patron saint of rain.

32. - Broadlands

Cyfeirnod Grid - SS 888 793 - Grid Reference

'tir' yn ei ffurf luosog + 'llydan'

Ffeil Ffeithiau - wedi enwi ar ôl y fferm Broadland Fawr, ac oherwydd y tiroedd fferm llydan, agored oedd yno'n wreiddiol.

'broad' and 'lands'

Fact File - Named after Broadland Fawr farm, and because of the wide, open farmland that was originally there.

33. Betws Bettws

Cyfeirnod Grid - SS 899 867 - Grid Reference

'betws' sef hen air yn meddwl 'tŷ addoli'

Ffeil Ffeithiau - Mae Eglwys Dewi Sant ym mhentref Betws yn Adeilad a Rhestredig Gradd I ac yn dyddio o'r 12fed ganrif. Yn 1833, ysgrifennodd Samuel Lewis yn 'A Topographical Dictionary of Wales' - "Mae'r plwyf wedi ei leoli'n braf ar yr afon Ogwr, heb fod ymhell o'i chymer â'r Hafren, ac yn cael ei dyfrio gan y cornentydd Llynfi a Garw, sy'n ei ymylu ar ddau ochr".

from 'betws' meaning 'a meeting or prayer house'

Fact File - St David's Church in Betws is a Grade I Listed Building and dates from the 12th Century. In 1833, Samuel Lewis wrote in 'A Topographical Dictionary of Wales' - "This parish is pleasantly situated on the river Ogmore, not far from its confluence with the Severn, and is watered by the rivulets Llynvi and Garw, which bound it on two sides".

34. Shwt -

Cyfeirnod Grid - SS 899 867 - Grid Reference

o 'siwt' yn wreiddiol, sef hen air am 'lwybr dŵr'

Ffeil Ffeithiau - Roedd gan y mathau hyn o lwybrau dŵr nifer o ddefnyddiau golchi wrth felino grawn ac o ran golchi glo.

from 'siwt' meaning a 'leat' or 'water course'

Fact File - These kinds of water courses had a number of uses in milling grain or as coal washeries.

35. Goetre-hen Coytrahan

Cyfeirnod Grid - SS 899 855 - Grid Reference

'coed' + 'tref' + 'hen'

Ffeil Ffeithiau - Mae'r pentref, tŷ mawr a'r bythynnod yn cymryd eu henw o'r coetir i'r dwyrain o'r pentref presennol, a ddangosir fel Coed Goetre-hen ar fapiau ym 1877.

'coed' meaning wood and 'tref' here meaning 'farmstead' and 'hen' meaning 'old'

Fact File - The village, great house and cottages take their names from the woodland to the east of the present-day village, shown as Coed Goetre-hen on maps in 1877.



36. Tondu

-

Cyfeirnod Grid - SS 893 844- Grid Reference

'ton' + 'du'

'ton' here meaning 'unploughed grassland' and 'du' here meaning 'black' or 'dark'

Fact File -Possibly referring to the dark colour of the soil in the unploughed fields at the time, the name 'Tondu' appears in that form in 1525 but by the 1630s had become 'Y Toune Dy' in some records before reverting to the original spelling.

Ffeil Ffeithiau - Yn cyfeirio o bosibl at liw tywyll y pridd yn y meysydd heb ei aredig ar y pryd, mae'r enw 'Tondu' yn ymddangos yn y ffurf honno ym 1525 ond erbyn y 1630au daeth yn 'Y Toune Dy' mewn rhai cofnodion cyn troi'n ôl i'r sillafiad gwreiddiol.

37. Abercynffig

Aberkenfig

Cyfeirnod Grid - SS 892 836 - Grid Reference

'aber' + enw person ac afon 'Cynffig' neu 'Cenffig'

'aber' meaning 'mouth of the river' and the personal and river name 'Cynffig' or 'Cenffig'

Fact File - The actress Pam Ferris, who starred in 'The Darling Buds of May' and 'Call the Midwife' on TV and in 'Harry Potter and the Prisoner of Azkaban' on the big screen, grew up in Aberkenfig.

Ffeil Ffeithiau - Fe wnaeth yr actores Pam Ferris, a ymddangosodd yn 'The Darling Buds of May' a 'Call the Midwife' ar y teledu ac yn y ffilm 'Harry Potter and the Prisoner of Azkaban' ar y sgrin fawr, tyfu i fyny yn Abercynffig.

38. Sarn

-

Cyfeirnod Grid - SS 902 835 - Grid Reference

'sarn'

'sarn' meaning 'causeway', possibly in the form of stepping stones across the river or a shallow ford

